

Cofnodion cyfarfod Cyngor Partneriaeth y Trydydd Sector (TSPC) ynghylch Cymunedau Cryf a gynhaliwyd ar 25 Ionawr 2017

Yn bresennol

Carl Sargeant AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant
Amelia John, Dirprwy Gyfarwyddwr yr Is-adran Gymunedau
Angharad Richards, Pennaeth Polisiâu'r Trydydd Sector a Chymunedau
Helen Brown, Uned Polisi y Trydydd Sector
Anna Nicholl, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (WCVA)
Victoria Ward, Cymdeithas Chwaraeon Cymru
John Hallet, Cymunedau yn Gyntaf, Clwstwr Trelái, Caerau a'r Tyllgoed
Sean O'Neill, Plant yng Nghymru
Gethin Rhys, Cytûn: Eglwysi Ynghyd yng Nghymru
Peter Williams, Cymdeithas Ymddiriedolaethau Datblygu Cymru
Martin Featherstone, Cymdeithas Cynghorau Gwirfoddol Sirol Cymru
(WACVC)

Sylwadau Agoriadol

Agorodd Carl Sargeant AC (CS) y cyfarfod drwy ddiolch i bawb am ddod ac esboniodd mai nod y cyfarfod oedd casglu barn y sector ynghylch cymunedau cryf. Esboniodd CS hefyd beth oedd ei flaenoriaethau a gofynnodd i aelodau'r grŵp am eu barn ynghylch nodweddion cymuned gref.

Mewn perthynas â Chymunedau yn Gyntaf, esboniodd CS fod y broses ymgysylltu gychwynnol wedi dod i ben ar 15 Ionawr a chafwyd ymateb da iawn. Roedd yn cydnabod bod llawer o bobl wedi ymrwymo i gyfrannu llawer i'w cymunedau wrth fynd i'r afael â thlodi, a diolchodd iddynt am hyn. Er bod y broses ymgysylltu gyntaf wedi dod i ben, nid yw hyn yn golygu bod y cysylltiadau a grëwyd â phobl wedi dod i ben yn gyfan gwbl. Dywedodd CS y bydd yn gwneud datganiad pellach am Gymunedau yn Gyntaf canol i ddiwedd mis Chwefror.

Sylwadau'r grŵp

Diolchodd *Anna Nicholl (AN)* i Ysgrifennydd y Cabinet am gynnal y cyfarfod. Dywedodd wrth CS bod WCVA yn ystyried cydweithio â phartneriaid, gan gynnwys dull mwy arloesol o weithio y cynghorau gwirfoddol sirol. Byddai WCVA yn croesawu'r cyfle i gydweithio â Llywodraeth Cymru yn y dyfodol pa bynnag newidiadau sy'n cael eu gweithredu.

Croesawodd *Peter Williams (PW)* y sylwadau agoriadol a dywedodd ei bod yn bwysig deall ystyr grymuso ac a fyddai Llywodraeth Cymru yn canolbwyntio yn y dyfodol ar ddarparu gwasanaethau ymyrryd neu greu mwy o swyddi mewn cymunedau. Cododd PW wedyn faterion ynghylch yr agenda asedau cymunedol gan ofyn a fyddai dull yr Alban yn gweithio yng Nghymru. Gofynnodd i CS pa gymorth y gellid ei roi gan Lywodraeth Cymru mewn cysylltiad â'r agenda hon.

Cyflwynodd *Victoria Ward (VW)* enghraifft o waith a wnaed gan Gymdeithas Chwaraeon Cymru a Busnes yn y Gymuned ynghylch asedau chwaraeon a

gafodd eu trosglwyddo i grwpiau cymunedol. Esboniodd VW fod angen cymorth ar sefydliadau cymunedol yn aml i ddod o hyd i'r sgiliau sydd eu hangen os ydynt yn ystyried cymryd ased drosodd.

Pwynt gweithredu: Dywedodd CS y byddai'n trafod hyn â Ken Skates AC.

Cytunodd *Gethin Rhys (GR)* â VW ynglŷn â gwella sgiliau pobl. Nododd hefyd fod swm bach o arian i sefydliadau weithiau'n gallu cael effaith enfawr ar gymuned.

Dywedodd *John Hallet (JH)* y gallai Cymunedau yn Gyntaf fynd a dod, ond yr oedd e'n teimlo ei bod yn bwysig edrych ar effeithiau parhaol y gwahanol raglenni ar gymunedau. Mynegodd ei bryderon ynglŷn â sefydliadau llai sy'n cyflwyno ceisiadau am Barthau Plant ar gyfer eu cymunedau pan fydd Awdurdodau Lleol yn trefnu ceisiadau sy'n llawer mwy heb ymgynghori â chymunedau. Dywedodd y byddai'n hoffi gweld proses gydgysylltiol a llawer mwy o gydweithio. Gwnaeth JH hefyd sylw ar waith cyn cyflogaeth yr oedd wedi bod yn rhan fawr ohono a'r gwaith sy'n mynd rhagddo ar hyn o bryd gyda phobl nad oes ganddynt yr hyder i siarad hyd yn oed ag unrhyw gyflogwr posibl.

Dywedodd *Sean O'Neill (SO)* yr hoffai weld proses bontio gefnogol ar waith i sefydliadau oherwydd yr holl ansicrwydd o ran Cymunedau yn Gyntaf a beth y bydd hyn yn ei olygu i lawer o brosiectau yn y dyfodol. Mae rhaglenni megis Teuluoedd yn Gyntaf, Dechrau'n Deg a Chymunedau yn Gyntaf i gyd yn gweithio gyda phlant sydd wedi cael profiadau niweidiol yn ystod plentyndod. Pan ddaeth cyllid i Deuluoedd yn Gyntaf a Chymorth i ben, collwyd gwasanaethau da.

Sylwadau CS

Nododd CS mai ei gyfrifoldeb ef oedd sicrhau nad yw cymunedau yn mynd yn fwy tlawd. Mae'n credu nad yw rhaglen dlodi Llywodraeth Cymru yn mynd i'r afael â thlodi'n effeithiol, felly, ni all Cymunedau yn Gyntaf barhau yn ei ffurf bresennol. Dywedodd ei fod am weld cymunedau'n ffynnu a buddsoddi mewn ardaloedd sy'n caniatáu i hyn ddigwydd. Dywedodd yn glir hefyd ei fod yn dymuno gweld byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn cynnwys tlodi yn eu cynlluniau a ddylai ddod â gwasanaethau ynghyd, gan gynnwys cyllid.

Mewn perthynas ag asedau cymunedol, yr oedd yn dymuno gweld dull 'gwnaed yng Nghymru' o weithio. Serch hynny, cytunodd fod angen sicrhau bod gan sefydliadau cymunedol y sgiliau iawn i gymryd asedau drosodd a'i fod yn ystyried y mater hwn.

Dywedodd ei fod yn ymwybodol iawn bod y newidiadau hyn yn amharu ar bobl gan gyfaddef nad yw'r broses yn un hawdd. Fodd bynnag, dywedodd ei fod wedi ymrwymo i gydweithio â'r sector yn y dyfodol.